

Cymraeg Mewn Arfer Proffesiynol 1
ECAD4020-C
2025-26



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 5:
Berfenwau a berfau (1)
4.11.2025

n.evans@pcydds.ac.uk

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrandu




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar y
byrddau gwyn



Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r Portffolio

Mae hi'n amser adolygu



Taflwch ddau ddis ac yna ysgrifennwch frawddeg yn cynnwys y rhan ymadrodd.

1. enw	2. rhagenw	3. aferf
4. berfenw	5. enw torfol	6. arddodiad
7. cysylltair	8. ansoddair	9. enw priod
10. y fannod	11. enw haniaethol	12. berf



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Yn y dosbarth ...



Meddyliwch am sut byddech chi'n defnyddio'r syniad yn y dosbarth ...

1.	2.	3.
4.	5.	6.
7.	8.	9.
10.	11.	12.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Berfenw / Berfenwau

infinitive/s / verb-nouns

Esboniad: Dyma ystyr neu enw'r ferf - enw'r gweithgaredd yn unig a geir e.e. ysgrifennu, darllen, gobeithio, nodi ...

Mae'r berfenw'n ddau air yn Saesneg h.y. **to +** y ferf e.e. to say, to think, to believe a.y.y.b. ond yn y Gymraeg, dim ond y berfenw ei hun sydd ei angen, e.e. dweud, meddwl, credu ...

Berfenw sydd i'w gael yn y geiriadur:

dysgu *be* [dysg•¹ 3 un. pres. dysg/dysga; 2 un. gorch. dysg/dysga]
1 (am iaith, cangen o ddysg) dod i wybod a deall, dod yn fedrus to learn
2 gwybod rhywbeth ar y cof, *dysgu darn o farddoniaeth*; cofio to learn, to memorize

Berf / au *verb/s*

Esboniad: Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.

Mae berf yn cyflawni **tair** swyddogaeth - dangos **person** (fel arfer), **amser** a **gweithred**.

e.e. **gwelais**

1. y weithred ydy **gweld**
2. **fi** ydy'r person
3. **yn y gorffennol** y digwyddodd hyn

Geiriau i'w cofio:

cwmpasog (y ffurf hir) Mae hi yn cerdded.

cryno (y ffurf fer) Cerdda hi.

Berf / au *verb/s*

Ceir chwe pherson i bob berf:

UNIGOL

1. fi
2. ti
3. e/o/ hi

Gwelais i
Gwelaist di
Gwelodd e/o/ hi

LLUOSOG

1. ni
2. chi
3. nhw

Gwelon ni
Gweloch chi
Gwelon nhw

Pa un sydd ddim yn perthyn?



1. rhedeg

2. cerdded

3. cerddodd

1. bwyta

2. darllenon

3. chwarae

1. siarad

2. cyflym

3. gweithio


1. bwytoch

2. gofynnais

3. edrychais



Chwarae Chwap!



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Ar y sgrîn fawr, dangoswch y sleid nesaf.
2. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm.
3. Dewiswch un o bob tîm i ddod i'r blaen.
4. Rhowch 'wasgwr pryfaid' yr un iddynt.
5. Dwedwch y cwestiwn sydd ar dop y sleid.
6. Yr un cyntaf (o'r ddau) i wasgu'r gair fydd yn ennill pwynt i'w tîm.
7. Gallwch newid aelod o'r tîm neu barhau gyda'r un ddau tan ddiwedd y gêm.
8. Mwynhewch!



Pa un ydy'r enw?

ysgrifennu

cadair



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pa un ydy'r ansoddair?

disglair

gweld



Pa un ydy'r berfenw?

eistedd

cer



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pa un ydy'r berfenw?

bod

byddaf



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pa un ydy'r ferf?

cerddais

mynd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Adferf / Adferfau

adverb/s

Esboniad: Gair sy'n disgrifio **berf**, **ansoddair** neu **adferf** arall. Maent yn ateb y cwestiynau:

Sut? Ble? Pryd? Pam?

Enghreifftiau:

1. penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwanegu at ein gwybodaeth am y ferf “penderfynu”)
2. yn **eithaf** pwysig (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr ansoddair “pwysig”)
3. unwaith **eto** (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr adferf “unwaith”)

Adferf / Adferfau adverb/s

Gellir ffurfio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair e.e.

1. Cerddodd y disgyblion **yn gyflym**.

Mae '**yn gyflym**' yn disgrifio '**cerddodd**' ac mae'n ateb y cwestiwn: **Sut?**

2. Cyrhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr**.

Mae '**yn hwyr**' yn disgrifio '**cyrhaeddodd**' ac yn ateb y cwestiwn: **Pryd?**



**Her: Gwella'r
frawddeg.**



Roedd e'n siarad â'i ffrind.

**Sut gallwn ni wella'r frawddeg
hon?**


Enghraifft: Sibrydodd Sion gyfrinach yn dawel wrth ei ffrind.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Eich tro chi:

**Roedd hi'n rhedeg i
fyny'r mynydd.**

Sut gallwn ni wella'r
frawddeg hon?



Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

Bwyta



Berfenw

Bwytais



Berf



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

bwyta = berfenw

Dim ond dangos gweithred a wna 'bwyta'.

Berfenw sydd i'w gael yn y geiriadur:

dysgu *be* [dysg•¹ 3 *un.* *pres.* dysg/dysga; 2 *un.* *gorch.* dysg/dysga]
1 (am iaith, cangen o ddysg) dod i wybod
a deall, dod yn fedrus to learn
2 gwybod rhywbeth ar y cof, *dysgu darn o farddoniaeth*; cofio to learn, to memorize



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

bwytais = berf

Mae 'bwytais' hefyd yn dangos **gweithred**, ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion**:

Mae berfau felly'n dweud 3 pheth wrthym ni:

- | | |
|-----------------------------|-------|
| 1. beth sy'n cael ei wneud | BETH? |
| 2. pwy sy'n ei wneud | PWY? |
| 3. pryd mae'n cael ei wneud | PRYD? |

Beth sy'n cael ei wneud?

Rhan gyntaf y ferf sydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni ...

Canais

Can(u)+ais

Penderfynodd

Penderfyn(u) +odd

Darllenon

Darllen + on



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pwy sy'n ei wneud?

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf ...

- | | |
|-----------------------|--------------------------------|
| • person 1af unigol | FI |
| • 2il berson unigol | TI |
| • 3ydd person unigol | FE (EF)/ FO / HI / JOHN |
| • person 1af lluosog | NI |
| • 2il berson lluosog | CHI |
| • 3ydd person lluosog | NHW |

Gyda berf gryno, mae'r terfyniad yn rhoi'r wybodaeth o bwy sy'n gwneud y weithred ..., e.e. ais, aist, odd, a.y.y.b.

Pryd mae'n cael ei wneud?

Mae'r terfyniad yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys ...



Y gorffennol

rhywbeth sydd wedi digwydd unwaith yn y gorffennol, mae'r weithred ar ben.

Y presennol

rhywbeth sy'n digwydd nawr, naill ai fel gweithred unigol neu rhywbeth sy'n arfer digwydd ac yn dal i ddigwydd.

Y dyfodol

rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol h.y heb ddigwydd eto.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Adolygu ... berf neu ferfenw?

Lluniwch dabl a rhowch y geiriau canlynol yn y golofn gywir:
'berf' neu 'berfenw'?



- | | | |
|--------------|-----------------|----------------|
| 1. anghofio | 9. gwariaais | 17.rhedwn ni |
| 2. bwyta | 10.gwelaais | 18.talu |
| 3. gwybod | 11.gwrando | 19.ymlacio |
| 4. cofrestru | 12.gwyddai | 20.ysgrifennaf |
| 5. credaf | 13.marcio | |
| 6. tynnodd | 14.mynd | |
| 7. ewch | 15.penderfynodd | |
| 8. teithio | 16.rhedeg | |



Berf neu ferfenw...?

Gwiriwch eich tabl.



1. anghofio
2. bwyta
3. cofrestru
4. credaf
5. tynnodd
6. ewch
7. teithio
8. gwariais

9. gwelais
10. gwrando
11. gwybod
12. gwyddai
13. marcio
14. mynd
15. penderfynodd
16. rhedeg

17. rhedwn ni
18. talu
19. ymlacio
20. ysgrifennaf

Yn y dosbarth,
beth am
ddefnyddio
byrddau gwyn
bach i ymarfer
ysgrifennu
brawddegau?

Ysgrifenna frawddeg sy'n cynnwys ...

rhedeg



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Yn y dosbarth ...



Tafla ddis ac yna ysgrifenna frawddeg sy'n cynnwys y berfenw.

1. rhedeg	2. cerdded	3. darllen
4. eistedd	5. bwyta	6. canu



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Arddodiaid gyda berfenwau

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau.

Ydych chi'n cofio beth ydy'r arddodiaid? Dyma rai enghreifftiau:

am, ar at
gan, dros drwy,
wrth dan heb
hyd i o.

Enghreifftiau:

siarad â
gwrando ar

meddwl am
aros am



â/ag	at	ar	am
cwrdd â	ysgrifennu at	blino ar	edrych am
cyffwrdd â	anfon at	gweddïo ar	gofyn am
dod â	mynd at	edrych ar	sôn am
mynd â	anelu at	gweiddi ar	talw am
peidio â	cyfeirio at	gwenu ar	gorffen am
sgwrsio â	cerdded at	gwrando ar	mynd am
siarad â	symud at	sylwi ar	siopa am

Arddodiaid gyda berfenwau

Mae angen defnyddio'r arddodiaid cywir gyda berfenwau oherwydd mae'n effeithio ar yr ystyr.

e.e.

edrych *am* edrych *ar*

Rydw i'n edrych *am* fy nghi sydd ar goll.

Rydw i'n edrych *ar* y teledu.

Pa arddodiad?



Ysgrifennwch yr arddodiad cywir yn y bylchau.

- 1) Ysgrifennodd Siôn _____ y Pennaeth Blwyddyn am y sefyllfa.
- 2) Roedd hi wedi sylwi _____ y gwahaniaeth rhwng y ddwy gân.
- 3) Roeddwn i'n gwrando _____ y radio pan glywais y gân.
- 4) Mae hi'n mynd _____ y deintydd ar ôl amser egwyl.
- 5) Gwaeddodd yr athro _____ y disgyblion _____ beidio â gwrando.
- 6) Wyt ti wedi sôn _____ y parti _____ dy ffrindiau?

Pa arddodiad?



Ysgrifennwch yr arddodiad cywir yn y bylchau.

- 1) Ysgrifennodd Siôn at y Pennaeth Blwyddyn am y sefyllfa.
- 2) Roedd hi wedi sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy gân.
- 3) Roeddwn i'n gwrando ar y radio pan glywais y gân.
- 4) Mae hi'n mynd at y deintydd ar ôl amser egwyl.
- 5) Gwaeddodd yr athro ar y disgyblion am beidio â gwrando.
- 6) Wyt ti wedi sôn am y parti wrth dy ffrindiau?

Pwysig i athrawon...

- Dweud **wrth**
- Siarad **â**
- Ysgrifennu **at** berson / Ysgrifennu **i** gwmni/ sefydliad
- Gwranddo **ar**
- Mynd **at** y deintydd/ mynd **i'r** siop.

COFIWCH:
Mae pob un
ohonoch
chi'n athro
iaith!

Berf neu ferfenw? Pa un ddylwn i ddefnyddio?

Byddwn ni'n defnyddio berfau neu ferfenwau mewn un o ddwy ffordd, naill ai ...

- yn eu ffurfiau cwmpasog, e.e.
neu

Mae Harri wedi ennill.

- yn eu ffurfiau cryno, e.e.

Enillodd Harri.

Sut ydw i'n defnyddio berfenw?

Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'bod' gyda berfenw a dyma sy'n rhoi ffurf **gwmpasog** y ferf i ni, sef y ffordd hir o ddweud rhywbeth. Yn aml y ffordd hir (**cwmpasog**) fyddwn ni'n ei ddefnyddio ar lafar wrth siarad e.e.

Mae e'n **gwylio** ffilm.

ffurf ar y ferf
'BOD'

berfenw



Yr Amser Presennol

Rydw i

(Dw i)

Rwyf ti

Mae e

Mae hi

Mae Ceri

Mae plant

Mae'r plant


Rydyn ni

('Dyn ni)

Rydych chi

(Dych chi)

Maen nhw



Yr amser presennol

Rydw i'n nofio.

Ble?

Rydw i'n nofio yn y pwll nofio.

**Gyda
phwy?**

Rydw i'n nofio yn y pwll nofio gyda Mam a Rhun.

Pryd?

Rydw i'n nofio yn y pwll nofio gyda Mam a Rhun bob dydd Sul.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Yr amser presennol

Mae hi'n darllen.

Ble?


Mae hi'n darllen yn y llyfrgell.

**Gyda
phwy?**

Mae hi'n darllen yn y llyfrgell gyda Miss Rhys.

Pryd?

Mae hi'n darllen yn y llyfrgell gyda Miss Rhys bob bore.



Yr amser presennol

Maen nhw'n



Ble?

**Gyda
phwy?**

Pryd?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Dyma Aled Afal. Mae Aled
Afal yn wyrdd.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


www.athrofa.cymru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

COLEG Y DRINDOD DEWI SANT
UNIVERSITY OF WALES
TRINITY SAINT DAVID

Dyma fferm Cae Berllan.



Dyma Mari Morgan. Hi sy'n ffermio. Mae ganddi ddau o blant o'r enw Cadi a Jac. Gwalch ydi enw'r ci.

Mae Gwyn Morgan yn gweithio yn y sgubor.



"Beth wyt ti'n gwneud, Dad?" holodd Jac. "Rwy'n clymu gwellt wrth y polion yma," atebodd Gwyn Morgan.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

“Beth ydi e?”



“Cewch weld cyn bo hir,” meddai Dad. “Beth am i chi fynd i’r sied i nôl fy hen got. Dewch â fy het hefyd.”

“Bwgan brain ydi e.”



Mae Cadi a Jac yn dod â’r got a’r het. Wedyn maen nhw’n helpu Gwyn Morgan i wisgo’r bwgan brain.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru